

Dadansoddiad Llywodraeth Cymru: ymgynghoriad ar y cynigion i roi pwerau troseddol penodol i Awdurdod Cyllid Cymru er mwyn mynd i'r afael â throseddau'n ymwneud â threthi datganoledig

Cynnwys

1.	Cyflwyniad.....	2
2.	Crynodeb o'r ymatebion i'r ymgynghoriad.....	3
3.	Yr angen i fynd i'r afael â throseddau'n ymwneud â threthi datganoledig drwy ddefnyddio pwerau troseddol, a'r sefydliadau a all fod yn rhan o ymchwiliadau ac erlyniadau troseddol (cwestiynau 1-3).....	4
4.	Goblygiadau ymarferol defnyddio elfennau gwahanol o ddeddfwriaeth pwerau troseddol y DU (cwestiynau 4-12).....	7
5.	Sicrhau mesurau diogelu a llywodraethu priodol ar gyfer defnydd posibl y pwerau hyn (cwestiwn 13)	15

1. Cyflwyniad

- 1.1 O Ebrill 2018 ymlaen, bydd y dreth gwarediadau tirlenwi a'r dreth trafodiadau tir yn disodli treth dirlenwi'r DU a threth dir y dreth stamp. Mae trethi'r DU yn cael eu casglu a'u rheoli gan Gyllid a Thollau EM ar hyn o bryd. O Ebrill 2018 ymlaen, bydd Awdurdod Cyllid Cymru (ACC) yn gyfrifol am gasglu a rheoli LDT a LTT.
- 1.2 Ym mis Gorffennaf 2017, lansiodd Llywodraeth Cymru ymgynghoriad 12 wythnos ar gynigion i roi pwerau troseddol penodol i ACC er mwyn mynd i'r afael â throseddau'n ymwneud â threthi datganoledig.
- 1.3 Mae Deddf Casglu a Rheoli Trethi (Cymru) 2016 (TCMA) yn sefydlu trefn ar gyfer trethi datganoledig er mwyn galluogi a chynorthwyo trethdalwyr i gydymffurfio. Yn y rhan fwyaf o achosion disgwylir i drethdalwyr dalu'r swm cywir o dreth ar yr adeg gywir. Bydd adegau, fodd bynnag, pan fydd angen mesurau ychwanegol i sicrhau eu bod yn cydymffurfio.
- 1.4 Mae TCMA eisoes yn darparu ystod gynhwysfawr o bwerau ymchwilio a gorfodi sifil i Awdurdod Cyllid Cymru. Rhagwelir y bydd y pwerau hyn yn ddigonol i fynd i'r afael â'r rhan fwyaf o'r achosion lle nad oes cydymffurfiaeth. Fodd bynnag, mewn amgylchiadau penodol, efallai y bydd angen pwerau i ymchwilio i droseddau.
- 1.5 Mae gan Gyllid a Thollau EM, sy'n gweithredu Treth Dir y Dreth Stamp a'r Dreth Dirlenwi yng Nghymru ar hyn o bryd, fynediad at ystod eang o bwerau troseddol ac mae Cyllid a Thollau EM wedi defnyddio'r pwerau hyn mewn sawl achos yn ystod y flwyddyn ddiwethaf.
- 1.6 Roedd yr ymgynghoriad yn gofyn am safbwyntiau ar yr effaith fyddai darparu pwerau troseddol i ACC yn ei chael, ac yn canolbwyntio ar 3 maes thematig (mewn 13 cwestiwn) sef:
 - i. Yr angen i fynd i'r afael â throseddau'n ymwneud â threthi datganoledig drwy ddefnyddio pwerau troseddol, a'r sefydliadau a all fod yn rhan o ymchwiliadau ac erlyniadau troseddol (**cwestiynau 1-3**)
 - ii. Goblygiadau ymarferol defnyddio elfennau gwahanol o ddeddfwriaeth pwerau troseddol y DU (**cwestiynau 4-12**); a
 - iii. Sicrhau mesurau diogelu a llywodraethu priodol ar gyfer defnydd posibl y pwerau hyn (**cwestiwn 13**).

2. Crynodeb o'r ymatebion i'r ymgynghoriad

2.1 Cafodd Llywodraeth Cymru 17 o ymatebion gan amrywiaeth o randdeiliaid o sectorau gwahanol, a phob un ohonynt o Gymru. Mae'r holl sylwadau wedi cael eu hystyried fel rhan o'r gwaith o asesu canlyniad yr ymgynghoriad.

2.2 Mae'r tabl isod yn dangos y gwahanol ymatebion fesul categori'r ymatebwyr, ac mae rhestr o'r ymatebwyr wedi'i atodi yn Atodiad A. Cafodd yr holl ymatebwyr ddewis cyflwyno eu hymatebion yn ddiennw a dewisodd 4 ymatebydd beidio â datgelu pwy oedden nhw.

Categori'r Ymatebydd	Nifer	Canran
Busnesau	1	6%
Elusennau	1	6%
Unigolion	1	6%
Asiantaethau Gorfodi'r Gyfraith	2	12%
Cyrff Proffesiynol a Chyfrifwyr Treth	4	23%
Cynghorau Tref a Chymuned	8	47%
Cyfanswm	17	100%

2.3 Mae'r tabl yn dangos mai Cynghorau Tref a Chymuned a Chyrff Proffesiynol a Chyfrifwyr Treth oedd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr.

2.4 Cyflwynir y crynodeb isod fesul cwestiwn ac mae'n tynnu sylw at safbwyntiau tebyg, awgrymiadau, beirniadaeth adeiladol a phwyntiau defnyddiol a wnaed. Mae'n cynnwys tair adran sy'n cyfateb i'r tri maes thematig a nodwyd yn 1.6 uchod.

2.5 Yn 2018, bydd Gweinidogion Cymru yn penderfynu a fyddant yn gosod rheoliadau i roi mynediad i ACC at bwerau troseddol penodol er mwyn mynd i'r afael â throseddau'n ymwneud â threthi datganoledig.

3. Yr angen i fynd i'r afael â throeddau'n ymwneud â threthi datganoledig drwy ddefnyddio pwerau troseddol, a'r sefydliadau a all fod yn rhan o ymchwiliadau ac erlyniadau troseddol (cwestiynau 1-3)

Cwestiwn 1 Ydych chi'n cytuno y dylai pwerau troseddol fod ar gael i fynd i'r afael â throeddau'n ymwneud â threthi datganoledig?

Rhowch resymau dros eich ateb a rhannu unrhyw sylwadau sydd gennych chi.

3.1 Roedd yr ymgynghoriad yn amlygu ei bod yn bosibl y ceir throeddau mewn perthynas â threthi datganoledig i Gymru yn y dyfodol. Bydd ymchwilio i droeddau'n ymwneud â threthi datganoledig gan ddefnyddio set gyson o bwerau i ymchwilio i droeddau yn helpu i sicrhau bod Cymru yn gallu mynd i'r afael â'r rhain.

3.2 Cafwyd 16 ymateb i gwestiwn 1. Roedd 14 o'r ymatebwyr yn cytuno y dylai pwerau troseddol fod ar gael i fynd i'r afael â throeddau'n ymwneud â threthi datganoledig. Nid oedd 2 ymatebydd yn cytuno â chynnig Llywodraeth Cymru, er enghraifft, roedd Sefydliad Peirianwyr Sifil Cymru (ICEWC) yn awgrymu "na ddylai pethau newid ac mai Cyllid a Thollau EM ddylai barhau i ddal y pwerau yn unol â'r sefyllfa ar hyn o bryd".

Cwestiwn 2 Ydych chi'n cytuno y dylai Awdurdod Cyllid Cymru fod yn gyfrifol am ymchwilio i droeddau trethi datganoledig?

Rhowch resymau dros eich ateb a rhannu unrhyw sylwadau sydd gennych chi.

3.3 Roedd yr ymgynghoriad yn amlygu bod sawl corff cyhoeddus yng Nghymru, gan gynnwys awdurdodau lleol, y GIG, Cyfoeth Naturiol Cymru, Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC), yn defnyddio pwerau troseddol ar hyn o bryd i gynnal ymchwiliadau yng nghyswllt eu swyddogaethau eu hunain.

3.4 Aeth yr ymgynghoriad ymlaen i nodi y byddai'n bosibl i'r heddlu yng Nghymru arwain holl elfennau'r ymchwiliadau i droeddau'n ymwneud â threthi datganoledig. Fodd bynnag, byddai hwn yn gyfrifoldeb ychwanegol i'r heddlu yng Nghymru a byddai angen i'r heddlu ystyried ystod o flaenoriaethau eraill cyn gallu gweithredu. Daeth yr ymgynghoriad i'r casgliad mai'r opsiwn mae Llywodraeth Cymru yn ei ffafrio yw bod ACC ei hun yn ymchwilio i droeddau'n ymwneud â threthi datganoledig.

3.5 Cafwyd 15 ymateb i gwestiwn 2. Roedd 13 ymatebydd yn cytuno y dylai ACC fod yn gyfrifol am ymchwilio i droseddau trethi datganoledig. Roedd y prif themâu'n ymwneud â lleihau costau, gweithio gyda Chyllid a Thollau EM a'r heddluoedd, a hyfforddi a datblygu swyddogion ACC.

Dywedodd yr Asiantaeth Troseddu Cenedlaethol (NCA): *“Er nad ydym yn siarad ar ran 4 Heddlu Cymru, mae'r Ganolfan Enillion Troseddau (PoCC) yn ymwybodol o'r pwysau cynyddol y mae ymchwiliadau sy'n ymwneud â'r Ddeddf Enillion Troseddau (PoCA) yn ei roi ar ymchwiliadau ac adnoddau'r heddlu. Yn 2005, cafodd nifer o asiantaethau gorfodi'r gyfraith bŵer i roi'r Ddeddf Enillion Troseddau ar waith er mwyn lleihau'r pwysau hynny. Fodd bynnag, yn ystod y blynyddoedd cynnar, rhoddodd hyn bwysau ychwanegol ar yr heddlu i gynorthwyo, er enghraifft, cynorthwyo awdurdodau lleol i ddatblygu profiad a dealltwriaeth o weithdrefnau PoCA. Felly mae dibynnu ar heddluoedd Cymru i gymryd yr awenau/arwain o ran troseddau treth yn rhoi baich ychwanegol ar adnoddau sydd eisoes yn brin”*

3.6 Dyma sylw Sefydliad Cyfrifwyr Siartredig Cymru a Lloegr: “ 1. Dylai unrhyw ddull leihau'r costau i Gymru;
2. Dylai'r arbenigedd helaeth sydd eisoes gan Gyllid a Thollau EM gael ei ddefnyddio'n llawn;
3. Lle mae'n bosibl, dylai'r systemau a'r prosesau presennol gael eu dyblygu er mwyn osgoi ailddyfeisio'r olwyn ac er mwyn sicrhau bod cyn lleied o newid â phosibl i drethdalwyr ac asiantwyr a chynghorwyr proffesiynol, a bod y broses yn tarfu cyn lleied â phosibl arnynt; a 4. Byddai bod yn gyson â'r arferion presennol yn gymorth sylweddol yn ystod y cyfnod pontio”

3.7 Dywedodd PWC: *“pa bynnag awdurdod sy'n ymchwilio i droseddau sy'n ymwneud â threthi datganoledig, rydym o'r farn ei bod yn bwysig bod digon o hyfforddiant yn cael ei ddarparu er mwyn sicrhau bod y camau gweithredu'n effeithlon ac yn cael eu cyflawni'n gyson, ac rydym yn argymhell bod hyn yn cael ei ystyried wrth ddyrannu cyllidebau ar gyfer gweithgareddau o'r fath” .*

Cwestiwn 3 Ydych chi'n credu y dylai Gwasanaeth Erlyn y Goron erlyn troseddau'n ymwneud â threthi datganoledig er mwyn bod yn gyson â Chyllid a Thollau EM? Neu a ddylai hyn gael ei wneud gan Awdurdod Cyllid Cymru?

Rhowch resymau dros eich ateb a rhannu unrhyw sylwadau sydd gennych chi.

3.8 Mae ymchwiliadau troseddol Cyllid a Thollau EM yn cael eu herlyn gan Wasanaeth Erlyn y Goron ar hyn o bryd. Mae Deddf Casglu a Rheoli Trethi (Cymru) 2016 yn galluogi ACC i gychwyn achosion troseddol neu sifil yng Nghymru a Lloegr, (adran 21). Os yw ACC yn gyfrifol am ymchwilio i droseddau'n ymwneud â threthi datganoledig, bydd angen i ACC benderfynu

maes o law pwy fydd yn erlyn troseddau'n ymwneud â threthi datganoledig a ddatgelir gan ymchwiliad: Gwasanaeth Erlyn y Goron neu ACC. Er enghraifft, mae gan Cyfoeth Naturiol Cymru dîm mewnol a all reoli erlyniadau ar eu rhan (mewn perthynas â throseddau amgylcheddol).

3.9 Cafwyd 13 ymateb i gwestiwn 3. Y thema a oedd yn codi dro ar ôl tro yn yr ymatebion oedd y dylid cael dull cyson o erlyn yng Nghymru a Lloegr. Roedd cwstiwn 8 yn hollti barn yr ymatebwyr; roedd 8 o blaid Gwasanaeth Erlyn y Goron yn erlyn a 5 yn awgrymu y dylid rhoi'r cyfrifoldeb hwnnw i ACC.

3.10 Tynnodd NCA sylw at y canlynol: *“Mae gan Wasanaeth Erlyn y Goron eisoes yr arbenigedd sydd ei hangen i erlyn yr achosion hyn ar gyfer Cyllid a Thollau EM ac gellid dadlau y dylai eu hadnoddau allu delio â'r llwyth gwaith sy'n dod i law. Mae gan rai o asiantaethau'r llywodraeth gyfundrefn erlyn bwrpasol, fodd bynnag, mae'n amlwg bod gwybodaeth, gallu a rhuglder yn y materion hyn yn hanfodol er mwyn sicrhau bod pob erlyniad yn cael ei gyflawni'n broffesiynol”*

3.11 Mater i ACC yw p'un ai Gwasanaeth Erlyn y Goron neu ACC ddylai erlyn troseddau'n ymwneud â threthi datganoledig, a bydd ACC yn gwneud penderfyniad pan fo hynny'n briodol, gan ystyried y safbwyntiau hyn a safbwyntiau eraill. Bydd Gwasanaeth Erlyn y Goron ac ACC yn archwilio nifer o gwestiynau ynghylch y gyfraith a pholisi wrth fwrw ymlaen â hyn.

4. Goblygiadau ymarferol defnyddio elfennau gwahanol o ddeddfwriaeth pwerau troseddol y DU (cwestiynau 4-12)

4.1 Os bydd Gweinidogion Cymru yn penderfynu y dylid rhoi pwerau i ACC yng nghyswllt ymchwiliadau troseddol, gall Gweinidogion Cymru, yn rhinwedd Rhan 9 TCMA, lunio is-ddeddfwriaeth mewn perthynas â'r canlynol:

- **Deddf yr Heddlu a Thystiolaeth Droseddol 1984:** mae adran 185(1) o Ddeddf Casglu a Rheoli Trethi (Cymru) 2016 yn caniatáu i Ddeddf yr Heddlu a Thystiolaeth Droseddol 1984 gael ei diwygio er mwyn rhoi'r pŵer i Weinidogion Cymru wneud rheoliadau i allu defnyddio darpariaethau penodol o Ddeddf yr Heddlu a Thystiolaeth Droseddol 1984 mewn ymchwiliadau troseddol sy'n cael eu cynnal gan ACC.
- **Deddf Cyfiawnder Troseddol a'r Heddlu 2001:** mae adran 185(2) o Ddeddf Casglu a Rheoli Trethi (Cymru) 2016 yn caniatáu i'r Ddeddf hon gael ei diwygio er mwyn rhoi'r pŵer i Weinidogion Cymru wneud rheoliadau mewn perthynas â'r darpariaethau yn Rhan 2 o Ddeddf Cyfiawnder Troseddol a'r Heddlu 2001, sy'n rhoi pwerau penodol i ymchwilwyr gymryd a chadw deunyddiau sydd wedi'u canfod wrth ymchwilio.
- **Deddf Enillion Troseddau 2002:** Mae adran 186 o Ddeddf Casglu a Rheoli Trethi (Cymru) 2016 yn diwygio adran 453 o Ddeddf Rheoleiddio Pwerau Ymchwilio 2000 fel bod Gweinidogion Cymru yn gallu gwneud gorchymyn sy'n pennu bod rhai pwerau a gaiff eu darparu gan Ddeddf Rheoleiddio Pwerau Ymchwilio 2000 yn gallu cael eu harfer gan "ymchwilwyr ariannol achrededig" sy'n arfer swyddogaethau ACC.
- **Deddf Rheoleiddio Pwerau Ymchwilio 2000:** mae adran 187 o Ddeddf Casglu a Rheoli Trethi (Cymru) 2016 yn diwygio Deddf Rheoleiddio Pwerau Ymchwilio 2000 er mwyn galluogi Gweinidogion Cymru i wneud gorchymyn sy'n rhagnodi'r bobl benodol sy'n arfer swyddogaethau ACC at ddibenion caniatáu awdurdodiadau ar gyfer gwyliadwriaeth gyfeiriedig neu gudd-wybodaeth ddynol o dan adrannau 28 a 29 o Ddeddf Rheoleiddio Pwerau Ymchwilio 2000.

4.2 Daeth yr ymgynghoriad i'r casgliad – o ystyried natur trethi datganoledig, nid yw Llywodraeth Cymru yn disgwyl y bydd ar ACC angen mynediad at yr holl bwerau a nodir yn y Deddfau hyn. Fodd bynnag, efallai y bydd angen rhai pwerau ar ACC er mwyn ymchwilio i droseddau'n ymwneud â threthi datganoledig fel y gwna Cyllid a Thollau EM ar hyn o bryd.

Cwestiwn 4 Cynigir na ddylid rhoi pwerau **stopio a chwilio** i ACC o dan

Ddeddf yr Heddlu a Thystiolaeth Droseddol i gynnal ymchwiliadau troseddol mewn perthynas ag ymchwiliadau i droseddau'n ymwneud â threthi datganoledig. Beth yw manteision neu anfanteision peidio â rhoi'r pwerau hyn i ACC?

Rhowch enghreifftiau.

4.3 Cafwyd 11 ymateb i gwestiwn 4. Roedd 8 ymatebydd yn anghytuno â chynnig Llywodraeth Cymru i beidio â rhoi pwerau "stopio a chwilio" i ACC; roedd 3 yn cefnogi'r cynnig hwn.

4.4 Roedd yr ymatebwyr a oedd yn anghytuno â chynnig Llywodraeth Cymru yn awgrymu y dylai pwerau ACC adlewyrchu pwerau Cyllid a Thollau EM er mwyn sicrhau dull cyson o fynd i'r afael â throseddau treth yng Nghymru a Lloegr a gwneud ACC yn fwy effeithiol.

4.5 Mae Deddf Rheoli Tollau Cartref a Thramor 1979 yn rhoi pwerau stopio a chwilio i Gyllid a Thollau EM yng nghyswllt tollau cartref penodol. Enghraifft o bryd y byddai modd defnyddio'r rhain yw pe bai un o swyddogion Cyllid a Thollau EM yn amau bod llong yn cynnwys nwyddau nad yw tollau wedi'u talu arnynt.

4.6 Fodd bynnag, nid oes gan Gyllid a Thollau EM bwerau stopio a chwilio yn achos y dreth dirlenwi na threth dir y dreth stamp. Byddai adlewyrchu Cyllid a Thollau EM yn yr achos hwn yn golygu peidio â rhoi pwerau stopio a chwilio i ACC, sef yr opsiwn mae Llywodraeth Cymru yn ei ffafrio o hyd, os bydd Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn llunio rheoliadau ac yn cytuno arnynt.

4.7 Dywedodd NCA: *"Mae modd cymedrolï'r manteision o gael pwerau llawn i ddelio ag ymchwiliadau a gweithdrefnau drwy gael y rheolaethau cywir ar waith er mwyn sicrhau bod pwerau'n cael eu defnyddio'n gymesur, gan gofnodi cyfiawnhad yn amlinellu pam mae angen cymryd cam gweithredu o'r fath. Yn yr un modd, mae gan PoCA reolaethau Uwch Swyddog Priodol – sef atebolrwydd strategol dros ymchwiliadau gwyngalchu arian ac ati, ac awdurdodi gorchmynion ymchwilio."*

Cwestiwn 5 Cynigir bod swyddogion ACC yn cael y pŵer i wneud cais i ynad heddwch am warant i gael mynediad at eitemau, eu chwilio a'u cymryd o fangreoeedd, neu chwilio unigolion a ganfuwyd yn y mangreoeedd hynny wrth ymchwilio i droseddau trethi datganoledig. Bydd hyn yn cynnwys y pŵer i ddefnyddio grym rhesymol i arfer y swyddogaeth honno pan fo angen. Beth yw manteision neu anfanteision rhoi'r pwerau hyn i ACC?

Rhowch enghreifftiau

4.8 Cafwyd 12 ymateb i gwestiwn 5. Roedd yr holl ymatebwyr yn cytuno â chynnig Llywodraeth Cymru, sef y dylai swyddogion ACC – er mwyn bod yn gyson â Chyllid a Thollau EM – gael y pŵer i wneud cais i ynad heddwch am warant i gael mynediad at eitemau, eu chwilio a'u cymryd o fangreoedd, neu chwilio unigolion a ganfuwyd yn y mangreoedd hynny wrth ymchwilio i droseddau trethi datganoledig.

4.9 Tynnodd 4 ymatebydd sylw at ba mor bwysig ydoedd bod gan ACC yr un pwerau â Chyllid a Thollau EM. Dywedodd Cyfoeth Naturiol Cymru: *“Dylai ACC gael yr un pwerau â Chyllid a Thollau EM, mae hyn yn bwysig o ran cysondeb.”* Fe awgrymodd PWC: *“Yn amlwg, byddai angen hyfforddiant a mesurau diogelwch addas o ran dyfarnu gwarantau yn unol â'r hyn sydd ar waith gan Gyllid a Thollau EM ar hyn o bryd”* ac fe ychwanegodd *“mae cyfyngiadau ar adnoddau yn ei gwneud yn anodd datblygu'r arbenigedd, y profiad a'r hyfforddiant arbenigol angenrheidiol yn ACC. Hyd yn oed os rhoddir y pwerau hyn i ACC, efallai y bydd angen i'r heddlu gynorthwyo swyddogion ACC i gyflawni'r gwarantau hyn, felly efallai na fydd y bwriad o arbed arian ac amser yn cael ei wireddu'n llawn”.*

Cwestiwn 6 Cynigir nad yw ACC yn cael pwerau i arestio, cadw na holi unigolion fel rhan o ymchwiliadau troseddol. Beth yw manteision neu anfanteision peidio â rhoi'r pwerau hyn i ACC?

Rhowch enghreifftiau.

4.10 Cafwyd 11 ymateb i gwestiwn 6. Fe wnaeth y cwestiwn hwn hollti barn yr ymatebwyr. Roedd 5 ymatebydd yn cefnogi'r cynnig i beidio â rhoi pwerau i ACC arestio, cadw neu gwestiynu unigolion fel rhan o ymchwiliad troseddol. Roedd 6 ymatebydd yn anghytuno â'r cynnig.

4.11 Roedd Cyfoeth Naturiol Cymru yn anghytuno â chynnig Llywodraeth Cymru oherwydd *“dylai ACC gael yr un pwerau â Chyllid a Thollau EM ac felly dylai gael pwerau troseddol i arestio, cadw a chwestiynu unigolion. Byddai hyn yn rhoi llai o faich ar yr heddlu”.*

4.12 Dywedodd PWC: *“Yn yr un modd â phwerau stopio a chwilio, mae'n bwysig bod unrhyw bwerau arestio yn cael eu defnyddio'n gymesur gan unigolion profiadol. Efallai y byddai'r costau cysylltiedig â chynnal hyfforddiant a rhoi mesurau diogelu ar waith yn gorbwyso unrhyw fanteision. Yn yr achosion hyn efallai y byddai'n well i ACC ddibynnu ar yr heddlu am gymorth pan fo angen”*

4.13 O gofio'r nifer fechan o achosion o droseddau'n ymwneud â threthi datganoledig y rhagwelir y bydd rhaid ymdrin â hwy bob blwyddyn, a'r niferoedd llai fyth lle bydd angen arestio, nid yw Llywodraeth Cymru'n credu

ar hyn o bryd y byddai'n gymesur i swyddogion ACC gael eu hyfforddi na'u paratoi i arestio a chadw unigolion. Os bydd angen arestio, disgwylir y bydd ACC a/neu gyrrff dirprwyedig yn gweithio gyda'r heddlu.

Cwestiwn 7 A ddylai ACC ddatblygu mesurau/canllawiau diogelu ychwanegol i arfer y pwerau hyn?

Rhowch enghreifftiau.

4.14 Cafwyd 12 ymateb i gwestiwn 7. Roedd 9 ymatebydd yn cytuno a 3 yn anghytuno. Tynnodd nifer o ymatebwyr sylw at ba mor bwysig fyddai llunio canllawiau mewn perthynas â defnyddio'r pwerau.

4.15 Tynnodd rhai o'r ymatebwyr (2) sylw at Godau Ymarfer statudol a nodi cyfeirnodau defnyddiol, sef Cod Erlynwyr y Goron a Chod Ymarfer Statudol y DU ar gyfer Rheoleiddwyr, sy'n seiliedig ar argymhellion Adroddiad Hampton. Dywedodd Cyngor Cymuned Gelligaer: "*dylid paratoi canllawiau ar gyfer cwmnïau er mwyn atal unrhyw demtasiwn i gyflawni trosedd. Os bydd deddfwriaeth yn cael ei hystyried yn wan, bydd pobl yn camfanteisio ar hynny*".

Cwestiwn 8 Cynigir bod ACC yn cael pwerau estynedig o dan y Ddeddf Cyfiawnder Troseddol a'r Heddlu i gynyddu'r pwerau sydd ar gael iddo eisoes o dan Ddeddf yr Heddlu a Thystiolaeth Droseddol (os cymerir y pwerau hyn). Beth yw manteision neu anfanteision rhoi'r pwerau hyn i ACC?

Rhowch enghreifftiau.

4.16 Cafwyd 13 ymateb i gwestiwn 8. Roedd 12 ymatebydd o blaid rhoi pwerau estynedig i ACC o dan y Ddeddf Cyfiawnder Troseddol a'r Heddlu er mwyn ymestyn y pwerau sydd eisoes yn cael eu darparu gan Ddeddf yr Heddlu a Thystiolaeth Droseddol (os defnyddir y pwerau hyn). Roedd 1 ymatebydd yn anghytuno.

4.17 Dywedodd Cyfoeth Naturiol Cymru: "*Dylid rhoi pwerau'r Ddeddf Cyfiawnder Troseddol a'r Heddlu i ACC er mwyn sicrhau bod ei rôl yn effeithiol ac yn gyson â Chyllid a Thollau EM. Mae'r pwerau estynedig hyn yn cyfateb â phwerau sylfaenol Deddf yr Heddlu a Thystiolaeth Droseddol ac yn estyniad rhesymegol os ymgwymerir â phwerau'r Ddeddf hon. Croesewir unrhyw bwerau ychwanegol sy'n gwella adnoddau ymchwilwyr.*"

Cwestiwn 9 A ddylid trosglwyddo unrhyw bŵer ychwanegol o Ddeddf yr Heddlu a Thystiolaeth Droseddol / Deddf Cyfiawnder Troseddol a'r Heddlu i ACC?

Os felly, rhowch enghreifftiau.

- 4.18 Cafwyd 10 ymateb i gwestiwn 9. Roedd 7 ymatebydd yn teimlo na ddylai pwerau ychwanegol gael eu trosglwyddo i ACC ac fe gafwyd argymhellion gan 3. Dywedodd Cyngor Cymuned Gelligaer: *“Dylai ACC gael pwerau ychwanegol i godi dirwyon ariannol mwy”*; dywedodd NCA: *“Pe na bai'r pwerau sy'n cael eu darparu i gasglu tystiolaeth ac ati yn cael eu hymestyn, byddant yn rhwystro swyddogion rhag gallu cyflawni eu swyddogaeth”*; ac fe nododd Cyfoeth Naturiol Cymru: *“os caiff pwerau arestio eu trosglwyddo, rydyn ni o'r farn y dylid defnyddio pob rhan o Ddeddf yr Heddlu a Thystiolaeth Droseddol sy'n berthnasol i'r ymchwiliad”*

Cwestiwn 10 Cynigir bod staff ACC yn cael eu henwi fel ymchwilwyr ariannol achrededig at ddibenion arfer pwerau amrywiol POCA wrth atafaelu neu ymchwilio i arian parod a gedwir. Cynigir hefyd y gall ymchwilwyr ariannol achrededig ACC hefyd wneud cais am orchmynion atal ac arfer pwerau cysylltiedig. Beth yw manteision ac anfanteision yr uchod?

Rhowch enghreifftiau

- 4.19 Roedd y ddogfen ymgynghori'n egluro bod Deddf Enillion Troseddau 2002 yn darparu ar gyfer adennill asedau a gafwyd drwy ymddygiad troseddol. Mae'r Ddeddf yn ceisio sicrhau nad yw troseddwy'r yn elwa ar eu hymddygiad troseddol, a fydd yn helpu i atal unigolion rhag cymryd rhan mewn gweithgareddau troseddol. Hefyd, mae atafaelu asedau'n lleihau'r cronfeydd sydd ar gael i droseddwy'r i ariannu rhagor o fentrau troseddol. Mae defnyddio'r pwerau amrywiol sydd yn Neddf Rheoleiddio Pwerau Ymchwilio 2000 yn galluogi Cyllid a Thollau EM (ymhliith asiantaethau gorfodi'r gyfraith eraill) i gynnal yr ymchwiliadau canlynol yn effeithiol:

- Ymchwiliadau atafaelu;
- Ymchwiliadau arian parod a gedwir;
- Ymchwiliadau gwyngalchu arian.

- 4.20 Dim ond y rhai a enwir yn y Ddeddf sy'n cael defnyddio'r pwerau o Ddeddf Rheoleiddio Pwerau Ymchwilio 2000 a ddisgrifir uchod, yn ogystal ag “ymchwilwyr ariannol achrededig” sy'n arfer swyddogaethau ar ran unrhyw asiantaeth gorfodi'r gyfraith a restrir mewn is-ddeddfwriaeth.

- 4.21 Mae adran 186 o Ddeddf Casglu a Rheoli Trethi (Cymru) 2016 yn diwygio adran 453 o'r Ddeddf Enillion Troseddau fel bod gan Weinidogion Cymru y pŵer i sicrhau, drwy is-ddeddfwriaeth, bod cyfeiriad penodol yn Neddf Rheoleiddio Pwerau Ymchwilio 2000 at ymchwiliwr ariannol achrededig

yn cynnwys cyfeiriad at berson sy'n arfer swyddogaethau ACC ac yn dod o dan ddisgrifiad penodol.

4.22 Drwy hyn, gall ACC gael y gallu i arfer rhai o bwerau'r Ddeddf Enillion Troseddau a ddisgrifir uchod drwy ddefnyddio "ymchwilydd ariannol achrededig". Mae "ymchwilydd ariannol achrededig" yn ymchwilydd ariannol sydd wedi'i achredu gan yr Asiantaeth Troseddu Cenedlaethol yn unol ag adran 3 o'r Ddeddf Enillion Troseddau. Nid yw Cyllid a Thollau EM yn cael mynediad at bwerau Deddf Rheoleiddio Pwerau Ymchwilio 2000 drwy ddefnyddio ymchwilydd ariannol achrededig – yn hytrach, mae ei swyddogion yn cael pwerau'n uniongyrchol gan y Ddeddf.

4.23 Cafwyd 13 ymateb i gwestiwn 10. Roedd 11 ymatebydd yn cefnogi'r cynnig a 2 yn anghytuno.

4.24 Awgrymodd ymatebwyr y dylai ACC ystyried yn ofalus oblygiadau hyfforddi a chefnogi ymchwilydd ariannol achrededig.

4.25 Awgrymodd Cyfoeth Naturiol Cymru ac ymatebydd arall y dylai ACC ystyried sut byddai'n cael mynediad at y Gronfa Ddata Adfer Asedau ar y Cyd, sy'n cael ei rheoli gan yr Asiantaeth Troseddu Cenedlaethol (NCA), sef lle mae gwybodaeth am yr holl ymchwiliadau troseddol yn cael ei gasglu at ei gilydd ar hyn o bryd.

Cwestiwn 11 Cynigir y dylai ACC gael pwerau i ymgymryd â gwaith goruchwylio i atal a chanfod troseddau neu at ddibenion asesu neu gasglu trethi. Beth yw manteision neu anfanteision rhoi'r pwerau hyn i ACC?

Rhowch enghreifftiau

4.26 Roedd yr ymgynghoriad yn egluro bod Deddf Rheoleiddio Pwerau Ymchwilio 2000 yn creu fframwaith rheoleiddio ar gyfer defnydd awdurdodau cyhoeddus o wylidwriaeth (a gweithgarwch cysylltiedig). Mae'r fframwaith hwn yn cadw cydbwysedd, yn cynnal archwiliadau ac yn gosod rheolau caeth er mwyn sicrhau bod cydbwysedd priodol rhwng eu nod cyfreithiol (er enghraifft, casglu trethi) a hawl y cyhoedd i breifatrwydd. Mae Deddf Casglu a Rheoli Trethi (Cymru) 2016 yn galluogi Gweinidogion Cymru, drwy is-ddeddfwriaeth, i bennu pobl yn unigolion dynodedig at ddibenion adrannau 28 a 29 o'r Ddeddf Rheoleiddio Pwerau Ymchwilio, a all awdurdodi gwyliadwriaeth gyfeiriedig a chudd-wybodaeth ddynol.

4.27 Mae gwyliadwriaeth gyfeiriedig yn golygu, yn gyffredinol, gwyliadwriaeth sy'n gudd ond nid yn ymwithiol – er enghraifft, nid yw'n golygu cael mynediad i anheddiad neu gerbyd preifat – ac mae'n cael ei wneud at ddibenion ymchwiliad penodol, mewn ffordd sy'n debygol o sicrhau

gwybodaeth breifat am unigolyn. Mae gwylidwriaeth yn gudd os, a dim ond os, yw'n cael ei wneud mewn ffordd sydd wedi'i chynllunio i sicrhau nad yw'r bobl sy'n cael eu gwylidwriaeth ymwybodol bod hynny'n digwydd. Gall gwylidwriaeth gyfeiriedig fod yn rhan o lawer o weithgareddau sy'n cael eu cynnal i ganfod ffeithiau heb yn wybod i'r unigolyn perthnasol.

4.28 Cafwyd 12 ymateb i gwestiwn 11. Roedd 11 o ymatebwyr yn cytuno y dylai ACC gael y pwerau hyn ac roedd 1 ymatebydd yn anghytuno.

4.29 Dywedodd NCA: *“Mae hwn yn ddull synnwyr cyffredin gan y bydd cyfran sylweddol o'r ymchwiliadau yn rhagweithiol ac yn cael eu harwain gan gudd-wybodaeth. Cymerir yn ganiataol bod gan asiantaethau gorfodi'r gyfraith yr adnoddau i gyflawni'r canlyniad cywir mewn perthynas â'r gwaith o gasglu cudd-wybodaeth a thystiolaeth, oherwydd mae'n amlwg bod ACC yn ymchwilio ac yn ceisio adfer arian ar gyfer pwrs y wlad. Mae Uwch Swyddogion Priodol (o dan PoCA) a'r rheini sy'n awdurdodi'r Ddeddf Rheoleiddio Pwerau Ymchwilio yn cofnodi'r sail resymegol y tu ôl i unrhyw weithred gudd a orchmynnir. Mae hyn yn ymwthiol (er mai dyna'r diffiniad deddfwriaethol) i fywyd ac amgylchiadau personol unigolyn, ac mae'n cynnwys cofnodi pob cyfiawnhad o dan y ddeddfwriaeth Hawliau Dynol”.*

Cwestiwn 12 Ydych chi'n credu y dylai ACC gael pwerau i ddefnyddio ffynonellau dynol o wybodaeth gudd ar gyfer atal a chanfod troseddau neu at ddibenion asesu neu gasglu trethi?

Beth yw manteision neu anfanteision rhoi'r pwerau hyn i ACC? Rhowch enghreifftiau. Beth yw manteision neu anfanteision rhoi'r pwerau hyn i ACC?

Rhowch enghreifftiau.

4.30 Roedd yr ymgynghoriad yn egluro mai ystyr ffynhonnell cudd-wybodaeth ddynol yw:

a) Unigolyn sy'n ffurfio neu'n cynnal perthynas bersonol neu berthynas arall ag unigolyn at y dibenion cudd o hwyluso unrhyw beth sy'n dod o dan baragraff (b) neu (c);

b) Unigolyn sy'n defnyddio perthynas o'r fath mewn ffordd gudd i gael gwybodaeth, neu i roi mynediad at unrhyw wybodaeth i unigolyn arall;

c) Unigolyn sy'n datgelu gwybodaeth a gafwyd yn sgil perthynas o'r fath, neu o ganlyniad i fodolaeth perthynas o'r fath, yn gudd.

- 4.31 Cafwyd 14 ymateb i'r cwestiwn hwn. Roedd 9 ymatebydd yn teimlo y dylai'r pwerau hyn gael eu rhoi i ACC er mwyn sicrhau eu bod yn gallu cyflawni ei rôl yn effeithiol ac yn gyson â Chyllid a Thollau EM. Roedd 1 yn anghytuno heb nodi rheswm penodol.
- 4.32 Dywedodd NCA: *“Mae defnyddio ffynhonnell cudd-wybodaeth ddynol yn agwedd hanfodol ar orfodi'r gyfraith sy'n gallu arbed llawer o amser ac arian mewn ymchwiliad. Mae defnydd ffynonellau cudd-wybodaeth ddynol yn cael ei reoli gan fframwaith o ddeddfwriaethau sy'n pennu sut cânt eu defnyddio ac yn diogelu'r rheini sy'n delio â'r ffynhonnellau cudd-wybodaeth ddynol (â'r hyfforddiant addas), yn ogystal â'u rheolwyr sy'n goruchwyllo'r gweithredoedd ac yn cofnodi pob gweithred a phenderfyniad a wneir”.*
- 4.33 Ychwanegodd Cyfoeth Naturiol Cymru: *“Dylid rhoi'r pwerau hyn i ACC er mwyn sicrhau ei fod yn gallu cyflawni ei rôl yn effeithiol ac yn gyson â Chyllid a Thollau EM. Dim ond pan mae ei seilwaith wedi'i sefydlu ac yn ddigon cadarn i wneud y gwaith y dylai ACC ddefnyddio ei bwerau o ran ffynonellau cudd-wybodaeth ddynol”.*

5. Sicrhau mesurau diogelu a llywodraethu priodol ar gyfer defnydd posibl y pwerau hyn (cwestiwn 13)

- 5.1 Roedd yr ymgynghoriad yn amlygu – er mwyn gwarchod y cyhoedd ac i osgoi camddefnydd o'r pwerau troseddol hyn – y dylai'r pedwar darn o ddeddfwriaeth ddatgan bod yn rhaid cael polisïau a gweithdrefnau eglur ar waith i sicrhau nad ydynt yn cael eu camddefnyddio. Ar hyn o bryd, mae'r polisïau a'r gweithdrefnau hyn yn berthnasol i Lywodraeth Cymru a chyrrff cyhoeddus eraill lle gallant ddefnyddio pwerau troseddol.
- 5.2 Byddai'r mesurau diogelu statudol hyn yn berthnasol i ACC a/neu unrhyw gyrrff dirprwyedig y mae ACC yn eu defnyddio er mwyn rhoi'r pwerau hyn ar waith. Bydd unrhyw weithdrefnau mewnol yn fater i ACC.
- 5.3 Er enghraifft, ni ellir defnyddio'r pwerau a geir yn Neddf yr Heddlu a Thystiolaeth Droseddol 1984 oni bai fod rhai amodau penodol wedi'u cyflawni. Bydd yr ymchwilydd yn gyfrifol am ddangos i uwch swyddogion, ac mewn rhai achosion, barnwr neu ynad, bod yr amodau hyn wedi'u cyflawni. Os yw'r uwch swyddog, neu farnwr/ynad o'r farn nad yw'r amodau wedi'u cyflawni, ni ellir defnyddio'r pwerau. Ni chaiff staff arfer y pwerau hyn nes iddynt gael eu hyfforddi a'u hawdurdodi i wneud hynny.
- 5.4 Mae Deddf yr Heddlu a Thystiolaeth Droseddol 1984 hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i'r Ysgrifennydd Gwladol gynhyrchu Codau Ymarfer ar y defnydd o bwerau yn ystod ymchwiliad troseddol. Mae Adran 67 o'r Ddeddf yn ei gwneud yn ofynnol bod unrhyw unigolyn sy'n cynnal ymchwiliad troseddol yn cydymffurfio â'r Codau Ymarfer hyn, a fydd yn cynnwys ACC pan fydd yn ymchwilio i droseddau'n ymwneud â threthi datganoledig. Mae'r Codau Ymarfer yn rhan hanfodol o'r fframwaith deddfwriaethol sy'n llywodraethu'r ffordd y mae ymchwiliad troseddol yn cael ei gynnal.
- 5.5 Mewn perthynas â'r Ddeddf Rheoleiddio Pwerau Ymchwilio, mae Swyddfa'r Comisiynwyr Arwyllo yn gyfrifol am adolygu gweithrediad a pherfformiad y pwerau a roddir gan Ran II o Ddeddf Rheoleiddio Pwerau Ymchwilio 2000.
- 5.6 Dim ond yn unol â'r darpariaethau a amlinellir yn Neddf Rheoleiddio Pwerau Ymchwilio 2000 y bydd unigolion dynodedig o fewn ACC sy'n meddu ar y profiad a'r hyfforddiant priodol yn gallu awdurdodi'r defnydd o wylidwriaeth gyfeiriedig a ffynhonnell gudd-wybodaeth ddynol. Dylid nodi na ellir caniatáu awdurdodiadau oni bai bod meini prawf penodol wedi'u bodloni, er enghraifft, lle bo'r unigolyn sy'n caniatáu'r awdurdodiad yn credu:

5.7 Bod y Ddeddf Enillion Troseddau hefyd yn cynnwys nifer sylweddol o fesurau diogelu statudol yn erbyn camddefnyddio'r pwerau. Dim ond pan fo'r amodau cymwys a amlinellir mewn deddfwriaeth wedi'u bodloni y gellir arfer y pwerau a geir yn Neddf Enillion Troseddau 2002 – er enghraifft, dim ond os yw perchennog yr asedau hynny wedi ei gael yn euog o drosedd berthnasol, a bod barnwr Llys y Goron yn fodlon ei bod yn briodol i wneud hynny ar ôl dod i'r casgliad (ymhlith pethau eraill) bod y diffynnydd wedi bod yn dilyn ffordd o fyw droseddol neu ei fod wedi elwa ar ymddygiad troseddol, y gellir atafaelu asedau.

Cwestiwn 13 Yn ogystal â'r mesurau diogelu presennol sydd wedi'u cynnwys yn y ddeddfwriaeth ar gyfer Deddf yr Heddlu a Thystiolaeth Droseddol/ Deddf Rheoleiddio Pwerau Ymchwilio / Deddf Enillion Troseddau/ Deddf Cyfiawnder Troseddol a'r Heddlu, pa fesurau diogelu mewnol eraill ddylai ACC eu hystyried i sicrhau bod pwerau i ymchwilio i droseddau yn cael eu harfer yn briodol?

5.8 Cafwyd 14 ymateb i gwestiwn 13. Dyma'r prif awgrymiadau:

- Cynigiodd Cyfoeth Naturiol Cymru y canlynol: *“i) creu meini prawf o gymwyseddau ar gyfer swyddogion er mwyn dangos eu pwerau o ran y dreth gwarediadau tirlenwi, eu bod wedi cael hyfforddiant priodol o ran Deddf yr Heddlu a Thystiolaeth Droseddol a bod ganddynt y sgiliau ymchwilio cymwys cyn cael gwarant; ii) darparu cynllun dirprwyo pwerau; a iii) datblygu proses ar gyfer Llywodraethu camau gorfodi er mwyn sicrhau dull cyson”.*
- Cynigiodd NCA y canlynol: *“ i) darparu ymchwilyr â'r ystod lawn o bwerau sydd ar gael i swyddogion Cyllid a Thollau EM ar hyn o bryd; ii) yn ogystal â buddsoddi mewn ymchwilyr, buddsoddi mewn Uned Cudd-wybodaeth Ariannol er mwyn cynnal ymchwiliadau ariannol seiliedig ar PoCA a fydd yn gwella'r llwyfan tystiolaeth; iii) yn unol â deddfwriaeth PoCA, bod Uwch Swyddog Priodol yn gyfrifol am oruchwylio ymchwiliadau atafaelu, arian parod a gedwir a gwyngalchu arian, sydd felly'n ychwanegu ail haen o graffu er mwyn cofnodi sail resymegol dros wneud penderfyniadau ar sail gwybodaeth; iv) defnyddio deddfwriaeth PoCA a'i gorchmynion yn llawn.”*
- Awgrymodd PWC: *“Bydd hefyd angen i ACC sefydlu cadwyn awdurdod sy'n sicrhau bod gwaith y swyddogion o gynnal ymchwiliadau troseddol yn cael ei oruchwylio a'i adolygu'n briodol. Efallai y bydd Llywodraeth Cymru yn dymuno cynnwys adolygiad o weithgarwch ymchwiliadau troseddol ACC mewn rhaglen archwilio fewnol er mwyn sicrhau ei fod yn glynu wrth y safonau. Byddai modd cytuno ar bolisi gweithio ar y cyd rhwng ACC a Chyllid a Thollau EM er mwyn sicrhau bod y ddau awdurdod yn cydweithio ac yn cyflawni eu hamcanion. Gallai hyn gynnwys gwneud trefniadau ar gyfer rhannu adnoddau a sicrhau bod polisiâu'n gyson, er enghraifft”.*

5.9 Bydd ACC yn sicrhau bod yr awgrymiadau ychwanegol hyn yn cael eu hadlewyrchu mewn gwaith pellach, os bydd pwerau troseddol yn cael eu rhoi i ACC.

Atodiad A Rhestr o'r ymatebwyr a benderfynodd ddatgelu pwy oedden nhw

1	Cyngor Tref Abergele
2	Cymdeithas Ganolog y Priswyr Amaethyddol
3	Cyngor Cymuned Gelligaer
4	Sefydliad Cyfrifwyr Siartredig Cymru a Lloegr (ICAEW) Cymru
5	Cyngor Cymuned Llandyfaelog
6	Cyngor Tref Llanelli
7	Cyngor Cymuned Mochdre a Phenystyrywaid
8	Yr Asiantaeth Troseddu Cenedlaethol (NCA)
9	Cyfoeth Naturiol Cymru
10	Heddlu Gogledd Cymru
11	Patrick Jeremy
12	Partneriaeth Atebolrwydd Cyfyngedig PricewaterhouseCoopers (PWC)
13	Tata Steel